**Adroddiad i'r:** **Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **25 Chwefror 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Julian Thompson - Hill / Paul McGrady**

**Awdur yr Adroddiad:** **Paul McGrady / Rod Urquhart**

**Teitl: Treth y Cyngor 2014/2015 a Materion Cysylltiedig**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar y 27 Ionawr 2014 mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau pellach mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Er mwyn gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio i ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015.

3.2 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel yn adran 3 Atodiad A.

3.3 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel yn adran 4 Atodiad A.

3.4 Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 i bob un o'r categorïau anheddau fel y dangosir yn Atodiad C.

3.5 Bod lefel y disgownt ar gyfer Dosbarth A, B, ac C fel y pennir o dan Reoliadau Treth y Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16 a 2016/17 sef tymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i Ddeddfwriaeth neu amodau lleol.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Oherwydd y gofyniad i gymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd mae Ychwanegiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd y Cyngor yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu blaenoriaethau a gwasanaethau corfforaethol ar gael.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o godi a dosbarthu biliau Treth y Cyngor a chasglu'r symiau sy'n ddyledus yn cael eu cynnwys yng Nghyllideb Flynyddol y Cyngor.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Dim yn berthnasol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn dod o'r gyllideb a osodwyd gan y Cyngor. Datblygwyd y gyllideb yn ystod heriau gwasanaeth gafodd sylw gan aelodau a swyddogion a thrwy gyfres o weithdai aelodau. Cymeradwyodd y Cyngor llawn y gyllideb ar 27 Ionawr 2014.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau'n gyfarwyddol o ran sut mae hyn yn cael ei wneud ac mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofynion hynny.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg ariannol o beidio â gallu codi neu gasglu incwm Treth y Cyngor os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008